Coleg Gwent

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Asesu Risg



**Yn gryno**

Datblygwyd y cwrs er mwyn egluro'r cysyniad 'asesu risg' mewn unrhyw sector diwydiant. Ystyrir ffyrdd o bennu peryglon a mesurau rheoli risg, a thrwy hynny sut i atal damweiniau posibl rhag digwydd. Mae'r cwrs yn rhyngweithiol a bydd yn ymgysylltu â'r ymgeiswyr er mwyn cynnig enghreifftiau o beryglon yn eu gweithleoedd nhw.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw lefel mewn unrhyw sefydliad; trwy fynd i'r afael â'r gofynion cyfreithiol a chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bydd y cwrs yn ymdrin gam wrth gam â'r pethau sy'n ofynnol yn ôl cyfraith y DU

**Cynnwys y cwrs**

Dyma'r pynciau yr ymdrinnir â nhw yn ystod y cwrs hwn:

Pennu peryglon a chanlyniadau

Matrics risg a sgôr risg
Mesurau rheoli
Delio â pheryglon
Asesiadau risg dynamig
Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
Y manteision i'ch busnes/sefydliad
Profi dealltwriaeth

**Gofynion Mynediad**

Ni cheir unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd y cwrs yn galluogi'r ymgeiswyr i gynnal asesiad risg ffurfiol yn y gweithle, yn cynnwys deall pam mae'n rhaid inni gynnal asesiadau o'r fath yn ôl cyfraith y DU.

Fel arfer caiff y cwrs hwn ei gyflwyno dros hanner diwrnod (3 awr). Bydd y mynychwyr a fydd yn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn cael tystysgrif bresenoldeb Coleg Gwent.

Ymhellach, gellir cyflwyno'r cwrs hwn ar ffurf Dyfarniad Lefel 2 HABC achrededig mewn Asesu Risg.